




ALLWEDD

- | | | |
|--|--|--|
| Taith Taf | Pwll Nofio a Thrac Beiciau Maendy | Canolfan y Ddraig Goch |
| Fforest Ganol | Maes Carafannau Caerdydd | Plas Roald Dahl |
| Fforest Fawr | Ysgol Farchogaeth Caerdydd | Gerddi'r Faenor |
| Cylchdaith Treforgan i Dongwynlais | Pedal Power | Canolfan Mileniwm Cymru |
| Camlas Morgannwg | Gerddi Soffia | Techniquet |
| Fferm Fforest | Stadiwm Criced SWALEC | Parc Hamadryad |
| Clwb Criced Caerdydd | Canolfan Genedlaethol Chwaraeon Cymru | Clwb Hwyllo Bae Caerdydd |
| Clwb Rygbi Cyn Ddisgylbion Ysgol Uwchradd Caerdydd | Parc Bute | Canolfan Gweithgareddau Dŵr Bae Caerdydd |
| Parc Hailey | Clwb Rygbi a Phêl Droed Parc yr Arfau Caerdydd | Maes Chwarae Parc Britannia |
| Caeau Llandaf | Stadiwm y Mileniwm | Maes Chwarae Argae Caerdydd |
| Caeau Pontcanna | Marchnad Glan yr Afon | Y Morglawdd - Gym Awyr Agored |
| | | Gwarchodfa Gwlyptir Bae Caerdydd |

CHWARAEON HAMDDEN AR HYD TAITH TAF

Bydd y map hwn yn eich helpu i ganfod y cyfleusterau hamdden a chwaraeon sydd ar gael ar hyd Taith Taf. Mae llawer o barciau a mannau glas gorau'r ddinas, ynghyd â thoreth o gyfleusterau chwaraeon, gan gynnwys Stadiwm y Mileniwm a Chanolfan Genedlaethol Chwaraeon Cymru, wedi'u lleoli ar hyd y llwybr. **Cliciwch ar yr eiconau am fwy o wybodaeth...**

Am fwy o wybodaeth ynglŷn â chyfleoedd eraill i fwynhau'r ardal o gefn gwlad sydd ar garreg eich drws, cysylltwch â Thîm Cefn Gwlad y Cyngor.


Ffôn: 029 2087 3186 / 3719 / 3249

E-bost: cefnngwlad@caerdydd.gov.uk

Gwefannau: www.caerdydd.gov.uk/cefnngwlad

www.caerdydd.gov.uk/bioamrywiaeth

www.outdoorcardiff.com



TAITH TAF

Llwybr amlbwrpas rhwng Bae Caerdydd yn y de a Bannau Brycheiniog yn y gogledd yw Taith Taf. Mae'r llwybr yn 55 o filltiroedd (88km) o hyd ac yn mynd drwy amrywiaeth o dirweddau o'r ardaloedd mwy trefol i ardaloedd gwledig. Dynodir cyfran fawr o Daith Taf yn ddi-draffig, a gall cerddwyr a beicwyr ei defnyddio, ynghyd â marchogion mewn rhai rhannau.

Ceir cyfres o gylchdeithiau hefyd ar hyd y llwybr, ac mae manylion amdanynt i'w cael ar wefan Cyngor Caerdydd. Mae'r rhain yn cynnwys 6 chylchdaith gerdded gweddol rwydd, ar y gwastad ac oddi-ar-y-ffyrdd yn bennaf. Mae pob un yn cynnwys darn o Daith Taf neu'n hawdd ei chyrraedd o Daith Taf, a llawer ohonynt yn mynd drwy fannau glas prydferth lle ceir amrywiaeth o fywyd gwyllt a phlanhigion. Cewch olygfeydd o'r afon ar bob cylchdaith.



TAITH TAF

Mae Cod Ymddygiad wedi cael ei lunio ar gyfer adran Caerdydd o'r llwybr, a dylid cadw ato ar bob achlysur.

Cod Ymddygiad Taith Taf

- Cadwch i'r chwith, pasiwch ar y dde - pob defnyddiwr.
- Gwnewch yn siŵr eich bod yn amlwg ac yn glywadwy - dylai beicwyr ddefnyddio cloch
- Byddwch yn ystyriol ac yn gwrtais - rhoddir y flaenoriaeth i gerddwyr
- Byddwch yn ddiogel - dylai beicwyr adael digon o fwll wrth basio cerddwyr, rhag ofn iddynt newid cyfeiriad yn ddirybudd
- Ewch ar gyflymder synhwyrol - cymerwch ofal wrth fannau dalau ac ar droadau
- Cadwch eich ci dan reolaeth - byddai'n well i chi ei gadw ar dennyn mewn ardaloedd prysur
- Rhowch eich holl sbwriel yn y bin, neu fynd ag ef adref gyda chi


Cliciwch [yma](#) am fwy o wybodaeth am Daith Taf.

FFOREST GANOL

Gwarchodfa natur leol yw Fforest Ganol, sy'n cynnwys coetir hynafol yn bennaf. Mae'n rhan o goetir ffawydd ehangach sy'n un o goetiroedd mwyaf gorllewinol Prydain. Gan hyn, mae'r ardal wedi'i chynnwys mewn Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig (SoDdGA), sy'n golygu bod mesurau arbennig yn bodoli i warchod y coetir.

Mae'r coetir mewn ardal o gefn gwlad ar gyrion y ddinas, i'r gogledd o Dongwynlais Er mai ond chwe milltir ydyw o ganol y ddinas, mae iddo naws wledig iawn.

Gallwch gerdded ar hyd rhwydwaith da o lwybrau sy'n mynd drwy'r goedwig, ac mae croeso i farchogion mewn rhai ardaloedd.



FFOREST FAWR

Ardal o goetir hynafol yw Fforest Fawr. Y Comisiwn Coedwigaeth sy'n berchen arni ac yn ei rheoli. Gellir cael mynediad i'r goedwig o Gastell Coch gan fod hawliau tramwy cyhoeddus yn cysylltu'r naill le a'r llall. Cewch gerdded ar amryw o lwybrau eraill drwy'r goedwig drwy ddilyn llwybr cerfluniau. Mae rhai o'r llwybrau hefyd yn addas ar gyfer marchogaeth. Ceir mannau parcio ym Maes Parcio Fforest Fawr oddi ar Heol y Fforest, Tongwynlais, a mannau parcio hefyd wrth fynedfa Castell Coch.

Am fwy o wybodaeth am Fforest Fawr, ewch i wefan y Comisiwn Coedwigaeth drwy glicio [yma](#).

CYLCHDAITH TREFORGAN I DONGWYNLAIS

Mae'r gylchdaith hon yn rhoi cipolwg i gerddwyr o orffennol Caerdydd, ynghyd â chyfle i fwynhau golygfeydd. Dechreuir y gylchdaith wrth y Bont Haearn, adeiladwaith nodedig sy'n croesi Afon Taf. Fe'i hadeiladwyd ym 1815 ar gyfer y rheilffordd a redai rhwng Gwaith Haearn Pentyrch yn Ffynnon Taf a Gwaith Tun Melin Gruffydd


Ar hyd y llwybr, cewch hefyd fwynhau'r golygfeydd rhagorol o Geunant Taf a Chastell Coch. Mae rhan fach o Gamlas Morgannwg wedi'i chynnwys yn y daith gerdded hon, sy'n ein hatgoffa unwaith eto am rôl bwysig Cwm Taf fel coridor trafnidiaeth yn ystod datblygiad diwydiannol cyflym y rhanbarth.

CAMLAS MORGANNWG

Adeiladwyd Camlas Morgannwg ym 1798 er mwyn ymdopi â'r cynnydd mewn masnach ac yn symudiad glo a mwyn haearn o Gymoedd Merthyr a'r Rhondda. Cafodd effaith ddramatig ar bwysigrwydd Cwm Taf ac ar ehangu porthladd Caerdydd. Roedd y Gamlas yn gamp aruthrol o safbwynt peirianeg. Roedd yn 25 milltir o hyd ac yn codi 80 metr uwch lefel y môr, gyda chymorth y 52 o lociau a adeiladwyd ar ei chyfer. Yn fuan iawn, roedd yn orlawn ac yn wynebu cystadleuaeth gan Reilffordd Taf. Mae rhan o'r Gamlas, gan gynnwys dau loc (y loc uchaf a'r loc canol), yn bodoli o hyd, ochr yn ochr â Fferm Fforest. Mae'r ardal yn Warchodfa Natur Leol bellach.

FFERM FFOREST

Caiiff Fferm Fforest ei rheoli gan Gyngor Caerdydd, ac fe'i dynodwyd yn Barc Gwledig ym 1992 oherwydd ei swyddogaeth mewn twristiaeth a hamdden. Mae'r ardal yn bwysig iawn hefyd o safbwynt natur, a hefyd yn cynnwys Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig (SoDdGA), ac yn warchodfa natur leol. Mae'r ffermdy a'r bwthyn gwreiddiol yn gartref i Ymddiriedolaeth Gwirfoddolwyr Cadwraeth Prydain, ac mae Canolfan Wardeiniaid Fferm Fforest gerllaw. Mae grŵp o breswylwyr lleol brwdfrydig wedi ffurfio Grŵp Cyfeillion Fferm Fforest er mwyn cynorthwyo Cyngor Caerdydd i wella'r ardal hon, ac maent yn cyflawni diwrnodiau o waith yn y warchodfa bob mis.



CLWB CRICED CAERDYDD

Ac yntau'n agos i lwybr Taith Taf a Fferm y Fforest, mae Clwb Criced Caerdydd yn un o sefydliadau chwaraeon hynaf Cymru. Mae'r clwb, a sefydlwyd yn 1819, nawr yn gartref i lawer o dimau gan gynnwys pedwar o dimau dydd Sadwrn Hŷn, timau Canol Wythnos a Dydd Llun, Timau Bechgyn lau o Dan 9 ac o Dan 15, yn ogystal â thimau Merched.



CLWB RYGBI CYN DDISGYBLION YSGOL UWCHRADD CAERDYDD

Mae Clwb Rygbi Cyn Ddisgyblion Ysgol Uwchradd Caerdydd a sefydlwyd yn 1921, bellach wedi'i leoli yn Nhiroedd Diamond (a enwyd ar ôl un o gyn-benaethiaid yr ysgol). Mae'r clwb wedi cynnal llawer o ddigwyddiadau rygbi dros y blynyddoedd, gan gynnwys gemau yng nghystadleuaeth Cwpan Merched y Byd ac mae'n aml yn cael ei ddefnyddio gan dimau cenedlaethol ar gyfer dibenion hyfforddi pan fyddan nhw'n ymweld â'r ardal. Mae'r clwb yn cynnwys tri chae a champfa ac mae'n bosib llogi rhannau ohono ar gyfer partïon a digwyddiadau arbennig.

PARC HAILEY

Gwneir defnydd da o Barc Hailey gan y gymuned leol, ac mae'n cynnig amrywiaeth eang o gyfleusterau ar gyfer chwaraeon a gweithgareddau hamdden eraill. Mae'r cyfleusterau'n cynnwys dau faes chwarae a chwe chwrt tennis yn ne'r parc, ac ardal eang o gaeau chwaraeon, gan gynnwys caeau rygbi yng ngogledd y parc, lle bydd y clwb rygbi lleol, Ystum Taf, yn chwarae. Gwneir defnydd helaeth o'r rhan hon o'r afon hefyd gan Glwb Rhwyfo Llandaf.

Sefydlwyd Cyfeillion Parc Hailey yn 2007, ac maent yn weithgar yn y Parc; yn trefnu digwyddiadau cymunedol, prosiectau bywyd gwyllt, ymgyrchoedd codi ysbwriel a llawer mwy. Am fwy o wybodaeth, ewch i'r [wefan](#).





CAEAU LLANDAF

Ynghyd â pharcdir cyfagos, mae Caeau Llandaf yn creu lletem fawr o dir agored sy'n ymestyn o ganol y ddinas allan at Landaf. Gwneir defnydd da o'r parcdir, a gellir ei gyrraedd yn rhwydd o gymunedau lleol.

Mae'r rhodfeydd o goed aeddfed yn ategu'r llecynnau glas helaeth gan greu parcdir hardd. Mae'r parc yn boblogaidd iawn ymysg pob grŵp oedran, ac fe'i defnyddir hefyd ar gyfer digwyddiadau chwaraeon.

Mae Caeau Llandaf hefyd yn cynnwys meysydd chwaraeon, gan gynnwys cyrtiau tennis, a chaeau rygbi a phêl droed a lawnt fowlio gyda phafliwn. Ceir hefyd ddigonedd o dir agored a llecyn chwarae i blant sy'n cynnwys dewis da o gyfarpar. Darperir ystafelloedd newid a thoiledau i ddefnyddwyr y parc, yn ogystal â maes parcio mawr y ceir mynediad iddo o Heol y Gadeirlan.



PWLL NOFIO A THRAC BEICIAU MAENDY

O fewn pellter cerdded byr i Daith Taf, ceir Pwll Nofio a Thrac Beiciau Maendy sy'n cynnig llawer o gyfleoedd i gymryd rhan mewn gweithgareddau egnïol. Mae'r cyfleusterau'n cynnwys: pwll nofio 25m a chanddo chwe lôn, ystafell ffitrwydd, stiwdio ddawns, cae pêl droed, a Felodrom Beiciau Awyr Agored 560m wedi'i lifoleuo. Mae digonedd o lefydd parcio ar gael i ymwelwyr.

Cliciwch [yma](#) am fwy o wybodaeth ac er mwyn gweld y casgliad o lyfrynau.

CAEAU PONTCANNA

Teulu Bute oedd yn berchen ar y caeau'n wreiddiol, ond rhoddwyd y tir i'r Cyngor ym 1947, ac mae bellach yn ardal fawr o dir agored y gwneir defnydd mawr ohoni, ac a werthfawrogir yn fawr gan y gymuned. Mae amryw o nodweddion diddorol i'w gweld yng Nghaeau Pontcanna fel y rhodfa o 100 o goed llwyf a'r posibilrwydd o weld eogiaid yn llamu i fyny'r afon wrth y gored. Mae caeau chwaraeon, gan gynnwys caeau rygbi a phêl droed i'w cael yng Nghaeau Pontcanna.

Cynhelir Hyfforddiant Lluedd Arfog Prydain (BMT) yng Nghaeau Pontcanna ar y rhan fwyaf o ddiwrnodiau bob wythnos, ac mae'n agored i aelodau o'r cyhoedd, beth bynnag fo lefel eu ffitrwydd. Bydd y BMT yn cynnal dosbarthiadau er mwyn cynyddu lefel ffitrwydd a hefyd yn cynnal digwyddiadau cymdeithasol. Mae maes parcio mawr ar gael wrth ymyl Ystafelloedd Newid Caeau Pontcanna.



MAES CARAFANNAU CAERDYDD

Mae Maes Carafannau Caerdydd wedi'i leoli mewn tua 300 erw o barcdir prydferth yng nghanol dinas Caerdydd. Cyngor Caerdydd sy'n berchen arno ac yn ei reoli. Mae'r safle'n lle delfrydol a thawel er mwyn archwilio'r lluo o atyniadau sydd ar gael o amgylch y Brifddinas. Mae golygfeydd dramatig Bannau Brycheiniog, cymoedd hanesyddol a thraethau hardd Gŵyr o fewn awr o daith mewn car.

Mae'r safle ar agor bob dydd o'r flwyddyn a gallwch archebu lle drwy ffonio'r warden ar 029 2039 8362 neu drwy lenwi'r ffurflen archebu a'i hanfon mewn e-bost i CardiffCaravanPark@caerdydd.gov.uk.

YSGOL FARCHOGAETH CAERDYDD

Agorwyd Ysgol Farchogaeth Caerdydd ym 1970. Fe'i hamgylchynir gan 35 erw o barcdir, ac mae'n agos at ganol y ddinas. Croesewir plant dros bedair oed, yn ogystal ag oedolion o bob oed. Mae cyfleusterau'r Ysgol Farchogaeth yn cynnwys arenâu marchogaeth dan do ac awyr agored, yn ogystal â chyfleusterau hacio a thraws gwlad. Cynigir gwersi i unigolion, grwpiau neu farchogwyr anabl. Ceir oddeutu 40 o geffylau a merlod yn y ganolfan.

Ffoniwch 029 20383908 neu anfonwch e-bost i CardiffRidingSchool@caerdydd.gov.uk am fwy o wybodaeth.



PEDAL POWER

Elusen gofrestredig sydd a'i bryd ar "wneud beicio yn hygyrch i bawb" ydy Pedal Power. A hithau ar agor saith diwrnod yr wythnos, mae gan yr elusen hon amrywiaeth eang o feiciau ar gael i'w llogi yn ei chanolfannau yng Nghaeau Pontcanna a Bae Caerdydd. Yn ogystal â beiciau i ferched, dynion a phlant, mae beiciau arbennig ar gael i oedolion a phlant ag anableddau yn y ganolfan yng Nghaeau Pontcanna. I'r rheiny sy'n chwilio am rywbeth go wahanol, mae gwibgerti, beiciau tandem a cheir pedal ar gael ym Mae Caerdydd. Mae Pedal Power yn cynnig amrywiaeth o gyrsiau a sesiynau unigol fel bod pawb o ddechreuwyr pur i feicwyr mwy profiadol yn gallu beicio'n ddiogel mewn traffig. Mae Caffi Spokes yn y ganolfan ym Mhontcanna, yn gwerthu bwyd a diod.

GERDDI SOFFIA

Sefydlodd Gwasanaeth Parciau Caerdydd ardd goed yn y 1950au cynnar, ac erbyn hyn mae'r parc yn cynnwys y casgliad hynod amrywiol o goed, gan gynnwys 50 o "Bencampwyr ymhlith Coed" sef, o bosib, y coed talaf, mwyaf, gorau neu fwyaf llydan o'u math mewn unrhyw barc cyhoeddus yn y DU.

Mae Gerddi Soffia hefyd yn gartref i [Stadiwm Criced SWALEC](#).





STADIWM CRICED SWALEC

Mae Stadiwm Criced SWALEC, sydd wrth ymyl Afon Taf yng Ngerddi Soffia, ar hyn o bryd yn gartref i Glwb Criced Sir Forgannwg. Mae pum Gem Un Diwrnod Ryngwladol wedi cael eu cynnal yno, a bydd yn llwyfan ar gyfer llawer mwy o gemau dros y



CANOLFAN GENEDLAETHOL CHWARAEON CYMRU

Cyfleuster chwaraeon yng Nghaerdydd Canolfan Genedlaethol Chwaraeon Cymru a sefydlwyd er mwyn cynorthwyo i ddatblygu athletwyr elït yng Nghymru. Ceir yn y ganolfan gyfleusterau o'r radd flaenaf ar gyfer llawer o weithgareddau chwaraeon, gan gynnwys gymnasteg, tennis bwrdd, pêl rwyd a phêl fasged. Bob blwyddyn ym mis Rhagfyr, bydd y Ganolfan yn cynnal Pencampwriaeth Badminton Agored Ryngwladol Cymru. Bydd Tîm Pêl Rwyd, Tîm Badminton a Thîm Gymnasteg Cenedlaethol Cymru oll yn ymarfer yng Nghanolfan Genedlaethol Chwaraeon Cymru. Mae Ffederasiwn Chwaraeon Anabledd Cymru, sy'n rhoi cyfle i bobl anabl yng Nghymru gael cymryd rhan mewn gweithgareddau chwaraeon a chorfforol lleol, hefyd wedi'i leoli yn y ganolfan.

PARC BUTE

Yn wreiddiol, crëwyd Parc Bute yn ardd breifat i Gastell Caerdydd ar gyfer trydydd Ardalydd Bute rhwng 1873 a 1901. Rhoddwyd cyfran helaeth o'r tiroedd 56 hectar i bobl Caerdydd ym 1947. Mae wedi'i ddynodi'n dir hanesyddol rhestredig Gradd 1, ac fe'i dyluniwyd gan 'Capability' Brown. Mae trefn wreiddiol y cynllun yn dal i fodoli, ond ers 1947 mae llawer o goed wedi cael eu plannu yn y parc er mwyn creu coedfa. Mae'r parc yn boblogaidd ymysg ymwelwyr a hefyd ymysg preswylwyr lleol, ac fe gynhelir digwyddiadau fel y Sioe'r Gymdeithas Garddwriaeth Frenhinol yno.

Gallwch gymryd rhan mewn amryw o weithgareddau yn y parc fel pêl droed, rygbi, beicio, neu fynd am dro hamddenol.



PARC BUTE

Yn ddiweddar, cwblhawyd Canolfan Addysg a Hyfforddiant Planhigfa newydd ym Mharc Bute. Nod y Ganolfan yw bod yn ganolbwynt i weithgareddau addysgiadol yn y parc, a bydd yn darparu adnodd i ysgolion, teuluoedd, grwpiau a chanddynt ddiddordeb arbennig, yn ogystal â phrentisiaid garddwriaeth Cyngor Caerdydd. Bydd hefyd yn rhoi cipolwg i bobl o waith garddwriaeth nodedig y Cyngor, sy'n cyflenwi arddangosiadau lliwgar o flodau a llwyni i'r ddinas. Mae'r cyfleusterau hefyd yn cynnwys y Ciosg Haf, y caffï yn y ganolfan addysg a thoiledau cyhoeddus.

Yn ddiweddar, ffurfiwyd grŵp newydd 'Cyfeillion Parc Bute'. Bydd y grŵp hwn o wirfoddolwyr yn helpu Cyngor Caerdydd i gynnal a chadw'r parc ac i sicrhau bod cenedlaethau i'r dyfodol yn parhau i'w ddefnyddio.

BLAERNOROL



CLWB RYGBI A PHÊL DROED PARC YR ARFAU CAERDYDD

Roedd Clwb Rygbi a Phêl Droed Caerdydd, a sefydlwyd ym 1876, wedi'i leoli'n wreiddiol yng Ngerddi Soffia cyn symud yn ddiweddarach i dir Parc yr Arfau Caerdydd. Ers troi'n gartref i dimau Rygbi a Phêl Droed Caerdydd, mae'r clwb wedi cynhyrchu llawer o chwaraewyr rhyngwladol a chwaraewyr Llewod Prydain.

STADIWM Y MILENIWM

Stadiwm y Mileniwm yw stadiwm cenedlaethol Cymru ac mae'n gartref i dîm Undeb Rygbi Cymru. Gan fod iddo do arbennig y gellir ei agor a'i gau, a bod modd codi ac ailosod y cae, mae'r stadiwm yn unigryw o'i gymharu â llawer o stadia eraill o amgylch y byd.

Agorwyd y stadiwm ym mis Mehefin 1999 ar gyfer Cwpan Rygbi'r Byd, ac mae llawer o ddigwyddiadau mawr fel rownd fawr arbennig GB, cyngherddau cerddorol amrywiol a rowndiau terfynol y Gymdeithas Bêl Droed Cymru. Mae hefyd yn un o'r llefydd a fydd yn cael eu defnyddio i gynnal y digwyddiadau pêl droed yn ystod Gemau Olympaidd 2012 Llundain.





STADIWM Y MILENIWM

Mae'r Stadiwm wedi'i leoli yng nghanol Caerdydd ac ar lannau Afon Taf, ac yn hawdd ei gyrraedd drwy gysylltiadau trafnidiaeth gyhoeddus, gan fod yr orsaf fysiau a Gorsaf Canol Caerdydd (prif orsaf drenau'r ddinas) o fewn pellter cerdded agos. Ceir hefyd ddigonedd o lefydd parcio gerllaw.

BLAERNOROL

MARCHNAD GLAN YR AFON

Mae Marchnad Glan yr Afon mewn lleoliad delfrydol, gyda golygfeydd ar draws Afon Taf tuag at Stadiwm y Mileniwm. Mae'r farchnad leol boblogaidd hon ar agor bob dydd Sul ac yn gwerthu cynnyrch lleol o 10am tan 2pm.



the
red dragon
centre
cinema • restaurants • bowling • nightlife • casino

CANOLFAN Y DDRAIG GOCH

Mae Canolfan Red Dragon wedi'i lleoli ym Mae Caerdydd, ac o fewn pellter cerdded agos i Daith Taf. Ceir llawer o weithgareddau hamdden yno, gan gynnwys sinema 12 sgrin, aliau bowllo, waliau dringo, caffis a hyd yn oed casino 24 awr.

Mae'r ganolfan hefyd yn cynnig digonedd o le i ymwelwyr barcio.

PLAS ROALD DAHL


Ariannodd ail Ardalydd Bute gynllun i adeiladu'r doc, a oedd yn dal 300 o longau - cyn hynny, ardal o dir corsïog mwdlyd ydoedd. Erbyn 1907, agorodd pedwar doc arall, gan sefydlu Caerdydd fel porthladd allfudo glo mwyaf y byd. Fodd bynnag, ar ôl yr Ail Ryfel Byd cafwyd gostyngiad yn y galw am lo, ac aeth y dociau i edrych yn ddiolwg ac yn segur. Yn rhan o'r gwaith i adfywio'r Bae crëwyd ardal sydd bellach yn cael ei ddefnyddio i gynnal digwyddiadau cerddorol awyr agored a gwyliau bwyd. Er anrhydedd i'r awdur a'r bardd a aned yng Nghaerdydd, cafodd yr ardal ei henwi'n Plas Roald Dahl.



GERDDI'R FAENOR



Mae Gerddi'r Faenor o fewn pellter cerdded agos i Daith Taf, ac yn un o lond llaw o lefydd yng Nghaerdydd sy'n elwa ar gyfarpar Gym Awyr Agored, drwy garedigrwydd The Great Outdoor Gym Company. Gyda chyfarpar cardio, cryfder a thynhau, mae'r gym yn ffordd wych o gadw'n heini'n rhad ac am ddim. Mae ardal chwarae i blant yn y gerddi hefyd a man agored mawr i'w fwynhau.





CANOLFAN MILENIWM CYMRU

Agorwyd [Canolfan Mileniwm Cymru](#) yn swyddogol yn 2004 gan Ei Mawrhydi Y Frenhines Elizabeth II. Ers hynny, mae hi wedi llwyfannu perfformiadau opera, bale, dawns, comedi a sioeau cerdd. Y briff i'r penseiri oedd dylunio'r adeilad er mwyn iddo fod "yn amlwg Gymreig ac yn nodedig drwy'r byd". Gan hynny, fe'i hadeiladwyd drwy ddefnyddio deunyddiau Cymreig, fel y llechi allanol o gloddfeydd Cymru. "Creu gwir fel gwydr o ffwrnais awen" yw'r farddoniaeth ar flaen Canolfan y Mileniwm, a gyfansoddwyd gan y bardd o Gymru, Gwyneth Lewis.

TECHNIQUEST



Canolfan darganfod gwyddoniaeth ym Mae Caerdydd yw Techniquest. Mae'r ganolfan yn rhoi profiad ymarferol i ymwelwyr o wyddoniaeth ac yn cynnwys theatr wyddoniaeth a phlanetariwm.

© Visit Wales



PARC HAMADRYAD

Mae Parc Hamadryad ar lannau Afon Taf, ac yn lle delfrydol i eistedd a gwylio'r byd yn mynd heibio. Ceir yno olygfeydd ar draws Bae Caerdydd. Yn ogystal â digonedd o le agored, mae'r Parc hefyd yn cynnig llecyn chwarae i'r plant â chyfarpar o'r radd flaenaf, a meinciau i chi ymlacio arnynt.



CLWB HWYLIO BAE CAERDYDD



Sefydlwyd Clwb Hwyllo Bae Caerdydd yn wreiddiol ym 1932, ac mae'n cynnig amrywiaeth eang o weithgareddau i'w aelodau, o natur forwrol a chymdeithasol, gan gynnwys rasio dingis a chychod chwaraeon. Mae hefyd yn cynnwys adran bysgota weithgar iawn.





CANOLFAN GWEITHGAREDDAU DŴR BAE CAERDYDD



Mae Canolfan Gweithgareddau Dŵr Bae Caerdydd yn cynnig amrywiaeth eang o weithgareddau fel rhwyfo, hwylio, hwylfyrddio, cychod modur yn ogystal â gweithgareddau eraill difyr fel saethyddiaeth. Bydd staff proffesiynol yn cynnal cyrsiau yn y ganolfan ar gyfer llawer o'r gweithgareddau hyn.

MAES CHWARAE PARC BRITANNIA

Mae'r llecyn chwarae hwn y tu ôl i'r Eglwys Norwyaidd, lle ceir golygfeydd ar draws y dociau, yn cynnwys cyfarpar chwarae o'r radd flaenaf. Mae'n cynnig lle i blant a rhieni gael mwynhau.



MAES CHWARAE ARGAE CAERDYDD

Mae'r llecyn chwarae hwn, a chanddo thema forwrol a llongau môr ladron, wedi'i leoli ar Forglawdd Bae Caerdydd. Dyma'r lle perffaith i eistedd tra bo'r plant wrthi'n chwarae. Adeiladwyd y llecyn chwarae pan godwyd y morglawdd ym 1999, ac fe geir golygfeydd gwych yno o Fae Caerdydd.



Y MORGLAWDD - GYM AWYR AGORED

Ceir ail gym awyr agored gan [The Great Outdoor Gym Company](#) ar y Morglawdd. Mae'r gym yma hefyd yn cynnwys cyfarpar cardio, cryfder, a thynhau er mwyn i chi gael ymarfer, ac yn ffordd wych o gadw'n heini am ddim.




GWARCHODFA GWLYPTIR BAE CAERDYDD



Crëwyd Gwarchodfa Gwlyptir Bae Caerdydd yn 2002 pan gwblhawyd y morglawdd. Trawsnewidiwyd y traethellau dŵr hallt blaenorol yn gorstir dŵr croyw ac yn llyn 400 erw, gan greu canolbwynt gwych i fywyd gwyllt. Heddiw, mae'r warchodfa'n safle pwysig i adar sy'n treulio'r gaeaf neu'n nythu yno, ac yn boblogaidd iawn ymysg gwylwyr adar sy'n mynd yno i weld yr adar prin. Mae ffos wedi'i hadeiladu'n arbennig er mwyn atal mynediad o'r tir at ran helaeth o'r warchodfa. Mae hyn yn fodd i ddiogelu adar sy'n nythu rhag unrhyw ysglyfaethwyr a rhag aflonyddwch gan bobl. Mae'r warchodfa hefyd yn lle da i ymwelwyr sy'n digwydd galw heibio gael mwynhau'r bywyd gwyllt a'r golygfeydd ar draws y Bae.





CHWARAEON HAMDDEN AR TAITH TAF

Bydd y map hwn yn eich helpu i ganfod y cyfleusterau hamdden a chwaraeon sydd ar gael ar hyd Taith Taf. Mae llawer o barciau a mannau glas gorau'r ddinas, ynghyd â thoreth o gyfleusterau chwaraeon, gan gynnwys Stadiwm y Mileniwm a Chanolfan Genedlaethol Chwaraeon Cymru, wedi'u lleoli ar hyd y llwybr. **Cliciwch ar yr eiconau am fwy o wybodaeth...**

Am fwy o wybodaeth ynglŷn â chyfleoedd eraill i fwynhau'r ardal o gefn gwlad sydd ar garreg eich drws, cysylltwch â Thîm Cefn Gwlad y Cyngor.

Ffôn: 029 2087 3186 / 3719 / 3249

E-bost: cefn gwlad@caerdydd.gov.uk

Gwefannau: www.caerdydd.gov.uk/cefn gwlad

www.caerdydd.gov.uk/bioamrywiaeth

www.outdoorcardiff.com